## 1 CYFLWYNIAD

**MUSIC. THEATRE. WALES.**

Mae Music Theatre Wales(MTW) yn awyddus i gomisiynu crëwyr o Gymru,  neu grëwyr sydd wedi sefydlu yng Nghymru, i greu operâu celfyddyd stryd.




Lansiwyd y syniad hwn yn gynharach eleni gyda The Scorched EarthTrilogy. Darllenwch amdano yma.




Ry'n ni'n bwriadu cyflwyno operâu celfyddyd stryd newydd ym mis Mehefin 2024.

## 2 BETH YW OPERÂU CELFYDDYD STRYD?



Operâu byr o hyd at 10 munud, yn cael eu dangos yn yr awyr agored, eu taflunio ar wal, a phobl yn gwrando ar ffonau clust di-wifr.



Maen nhw'n defnyddio technegau graffeg neu animeiddio, ac weithiau'n cynnwys ffilmio sgrin-werdd.



Dylen nhw gynnwys canu opera, ond gallant hefyd gynnwys mathau eraill o ganu.



Gall y gerddoriaeth fod o unrhyw fath,  o  hiphop i glasurol. Gallwch ddefnyddio unrhyw offerynnau a seiniau.




Bydd y geiriau'n rhan o'r brif ddelwedd graffig.




Gall y darnau fod yn Gymraeg, Saesneg neu unrhyw iaith arall. Taflunnir y geiriau'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

## 3 RY'N NI'N CHWILIO AM . . .



Syniadau a chanddynt neges ymgyrchu gref – bachog, comig, dychanol, ingol, pwerus.



Pobl sy'n awyddus i weithio mewn tîm sy'n cyfuno crëwr cerddoriaeth, ysgrifennwr ac artist gweledol.




Darnau a chanddynt syniad ar gyfer pwy a ble maen nhw.

## 4 BETH ALLWN NI EI DDARPARU





Gallwn helpu i'ch cyflwyno i dimau creadigol.



Byddwn ni'n cynhyrchu'r darnau ac yn gofalu am drefnu'r cantorion a'r cerddorion.



Byddwn ni'n trefnu'r broses recordio a ffilmio.




Byddwn yn helpu gyda'r elfen ddramatwrgaidd (h.y. sut mae'r adrodd stori a'r gerddoriaeth yn cyfleu'r neges).

## 5 PRYD A SUT I WNEUD CAIS




- **31 Gorffennaf i 29 Medi 2023** – ceisiadau ar agor a chyfle i sgwrsio gyda ni am eich syniadau.
- **23 Hydref 2023** – Dyddiad cau am geisiadau
- **10 Tachwedd 2023** – Dewis y ceisiadau llwyddianus
- **17 Mai 2024** – Golygu Terfynol (barod i ddangos)
- **Meh / Gorff 2024** – Dangos yr Operâu Celfyddyd Stryd yn gyhoeddus




Cliciwch yma i ymgeisio'n ysgrifenedig neu gyda fideo




Bydd angen i chi ddarparu enghreifftiau o waith blaenorol, a rhai cyfeiriadau gweledol i ategu eich syniad.

## 6 CYMORTH PELLACH



Bydd MTW yn eich helpu drwy'r broses. Gallwn:

- drafod eich cynnig cyn i chi ei gyflwyno
- siarad am eich syniad – yn cynnwys yr elfennau ymarferol ac ariannol
- eich cyflwyno i artistiaid cydweithredol eraill



Cysylltwch â Michael McCarthy am sgwrs bellach: michael@musictheatre.wales